



## Cadw yn saff!

**W**rth i mi ysgrifennu'r geiriau yma dyn ni yng nghanol cyfnod rhyfedd iawn Coronafeirws neu Cofid-19. Efo'r wlad i gyd o dan 'cloi-i-lawr llwyr' dyn ni'n cael ein hysgwyd yn ddyddiol gan y nifer sy'n marw. Dyma dristwch mawr sy'n effeithio ar filoedd o deuluoedd ar draws Ynysoedd Prydain.

Mae'r economi ar stop, dros filiwn yn hawlio'r budd-dal credyd cynhwysol. Mae'r digwyddiadau mawr yr haf megis Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfod Llangollen, Yr Eisteddfod Genedlaethol, Cynadleddau Gwleidyddol, Sioau Amaethyddol i gyd wedi canslo neu ohirio.

Mae rhai pobl wedi ymateb yn hunanol trwy barhau i deithio i'w tai haf neu fynd ar wyliau i rannau Glan-y-môr neu barciau cenedlaethol, ond y rhan mwyaf yn ufuddhau i'r rheolau. Er hyn mi fydda'r rhai ohonom sy'n byw yn Lloegr yn gweld eisiau ein gwyliau yng Nghymru, ond er mwyn lles pawb mae rhaid i ni gadw draw nes bod yr argyfwng drosaf.

Mae cymdeithas mewn llawer o ffyrdd yn cyd-dynnu trwy sefydlu grwpiau lleol i ddarparu gwasanaethau siopau a chasglu meddyginiaethau ar gyfer y rhai sy'n gaeth i'r cartref oherwydd henaint, salwch neu am fod yn fregus.

Mae nifer mawr o fudiadau wedi symud peth o'r gweithgareddau a chyfarfodydd i'r we. Dyna beth mae Cylch Dysgwyr Cymraeg wedi penderfynu. Mi fydd cyfarfod 'Zoom' ar gyfer aelodau DWLC sy eisiau ymarfer siarad a gwrando tra bydd Elin Heron, ein tiwtor, yn cynnal gwersi ar lein yn gyfochrog

a'r gweithdy i'r rhai sy eisiau gwrs Cymraeg, ac i helpu efo'r gwaith yma mae Elin wedi sefydlu gwefan dysgu Cymraeg newydd sef Tyfu-Cymraeg ([www.tyfu-cymraeg.co.uk](http://www.tyfu-cymraeg.co.uk)). Mae mudiadau megis SSIW yn cynnal cyfarfodydd ar lein a hefyd mae'na sesiwn Sgwrs a Pheint yn cael ei drefnu yn fisol gan Gymry a dysgwyr ym Manceinion. Mae'r Bore Coffi Misol Cymry Nottingham hefyd wedi symud ar lein i gyfarfod Zoom misol. Gobeithio, os bydd y rheolau yn gallu cael eu llacio erbyn mis Medi neu fis Hydref mi fydd Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby yn gallu aildechrau'r gweithdai misol a'r Ysgol Undydd Cymraeg yn yr Hydref, ond gawn ni weld.

Mi fydd rhai o'r datblygiadau yma, megis cyfarfodydd ar lein, yn parhau ar ôl i'r 'cloi-i-lawr' dod i ben. Yn y cyfamser dyn ni'n dymuno'r gorau i bawb! Cadwch yn saff ac yn iach, cyn i ni i gyd cwrdd unwaith eto yn Nhŷ Cwrdd y Crynwyr.

**Jonathan Simcock**

**Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby**



**TYFU**  
**CYMRAEG**  
grow your welsh  
[www.tyfu-cymraeg.co.uk](http://www.tyfu-cymraeg.co.uk)

# Bywyd gwyllt a bywyd ar lein

**E**rs i ni i gyd ddechrau aros gartre oherwydd Coronafeirws dau beth gwahanol iawn wedi bod yn bwysig iawn i mi: bywyd gwyllt yn fy ngardd a siarad â phobl y tu allan i'r tŷ.

Mae methu â threulio diwrnod yng nghefn gwlad efo fy ysbienddrych yn gwylio bywyd gwyllt yn golygu bod yn rhaid i mi ganolbwyntio mwy ar y bywyd gwyllt gartref. Dim ond ardd fach sydd gen i ond dw i'n trio creu cymaint â chynefin a phosib i ddenu bywyd gwyllt yn fy ngardd.

Dw i'n cael pleser mawr yn gwylio'r adar yn fy ngardd a gwrando arnyn nhw'n canu. Dw i'n darparu amrywiaeth o fwyd trwy'r flynedd er mwyn denu amrywiaeth o adar, a dwi'n gwneud yn siŵr bod dŵr ar gael iddyn nhw hefyd. Mae gen i flwch nythu o gwmpas y tŷ ac mae titw-tomos las yn defnyddio nifer ohonon nhw ar hyn ar bryd.

Mae mamaliaid yn yr ardd yn llai amlwg nag adar felly maen nhw bob amser yn gyffrous i'w gweld. Mae rhai dim ond ymweld yn ystod y nos ac mae'n anodd gweld rhai oherwydd eu bod mor fach. Dw i wedi bod yn defnyddio "camera trap" ers i mi amau bod draenog yn yr ardd. Y gwanwyn hwn mae gen i bedwar draenog yn yr ardd a dw i'n edrych ymlaen at wyllo'r fideos o'r camera trap pob bore. Dw i'n rhoi hadau blodyn yr haul a chynrhon y blawd llan iddyn nhw ac mae'n ddiddorol i weld nhw a beth maen nhw'n ei wneud yn yr ardd dros y nos pan ddw i'n cysgu.

Weithiau mae llwynog ymweld â'r ardd. Heb y camera trap fyddai gen i

ddim syniad bod llwynog yn ymweld â'r ardd. Dim ond un waith wnes i ffeindio plu o ysguthan roedd llwynog wedi torri i ffwrdd i ddangos bod un wedi



Llwynog gan Nigel Homer

ymweld. Hoffwn i weld mwy o'r llwynog ond dw i ddim yn siŵr os ei fod yn syniad da i ddenu'r llwynog yn fy ngardd oherwydd bod fy nghath yn hen ac yn ddall a dw i ddim isio'r llwynog i fwyta fy nghath!

Mae llwynog yn chwilio am lygoden goed ac mae'n lawer o lygoden goed yn fy ngardd. Maen nhw anarferol o eofn a dw i'n rhoi rhai hadau allan iddyn nhw ac mae'n bosib gwylio nhw trwy'r ffenest pan ddw i'n golchi llestri ar ôl swper. Dw i'n gwybod lle mae llygoden yn byw achos oedd ymwelydd arbennig yn yr ardd un wythnos - gwenci! Ro'n i'n edrych trwy'r ffenest ar yr amser iawn i weld y wenci fynd ar ôl y llygod. Aeth y wenci i mewn i'r planhigion o dan y bwydwy'r aderyn a neidodd llawer o lygod allan!

Mae gwylio bywyd gwyllt yn fy ngardd yn fy atgoffa bod bywydau'n parhau er gwaethaf y drasiedi ddynol o'n cwmpas ar hyn o bryd.

Y ail beth arall sydd wedi tyfu mewn pwysigrwydd ydy siarad â phobl y tu allan i'r tŷ.

Dw i'n medru gweithio gartre ac mae'n bosib cadw mewn cysylltiad efo

fy mos a thîm trwy alwadau fideo, mae fy nosbarth ioga wedi mynd ar-lein ac wrth gwrs dw i'n ymarfer siarad Cymraeg ar lein hefyd. Mwy nag erioed dw i'n hapus bo' fi wedi penderfynu dysgu Cymraeg achos mae'n rhoi cyfle i mi siarad â phobl a gwneud ffrindiau newydd er fy mod i'n aros gartref.

Ym Mis Ebrill oedd y cyfarfod cyntaf Bore Coffi popeth yn Gymraeg Nottingham ar-lein ac y cyfarfod cyntaf Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby ar lein. Roedd hyfryd iawn gweld wynebau pobl a chael sgwrs.

Dw i'n cwrdd â phobl ar lein cymaint a phosib i ymarfer siarad Cymraeg. Dw i'n aelod o'r grwp "Welsh Speaking Practice" ar "Slack" platfform cyfathrebu ar-lein. Mae'r grŵp yn agored i bawb sydd isio ymarfer siarad Cymraeg trwy sain neu fideo. Dw i'n cael llawer o hwyl ar Welsh Speaking Practice sy'n fywiog iawn. Yn ogystal â sgwrsio mae wasted rhywbeth yn digwydd fel cwisiau, canu, ryseitiau, stori sydyn a barddoniaeth. Dw i'n edrych ymlaen at weld y pantomine cyntaf a dw i'n mwynhau trio gwneud y "lyp-sync challenge". Mae'n llawer o hwyl ac mae'n helpu fi i beidio teimlo'n ynysig tra mae'n rhaid i mi aros gartref.


Os dach chi isio bod aelod o Welsh Speaking Practice, anfonwch e-bost i [admin@saysomethingin.com](mailto:admin@saysomethingin.com) with WSP yn y teitl.

**Cetra Coverdale Pearson  
Swanwick**

### **Geirfa**

Ysbienddrych - binoculars  
Amrywiaeth - variety  
Llwynog/cadno - fox  
Llygoden goed - wood mouse  
Eofn - bold  
Gwenci - weasel

Draenog - hedgehog  
Cynrhon y blawd - mealworms  
Ysguthan - woodpigeon  
Bwydwyr - feeders  
Drasiedi ddynol - human tragedy  
Cyfathrebu - communicate



### **Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby Rhaglen 2020**

Oherwydd y Coronafeirws dyn ni'n cynnal ein gweithdai ar lein tan i'r argyfwng Cofid-19 dod i ben.

Os am gymryd rhan ebostio  
[menteriaithlloer@mail.com](mailto:menteriaithlloer@mail.com)

Gweithdy Cymraeg Sadwrn 2-5-20  
Gweithdy Cymraeg Sadwrn 6-6-20  
Gweithdy Cymraeg Sadwrn 6-7-20  
Gweithdy Cymraeg Sadwrn 15-8-20

Mae'na groeso i bawb boed dysgwyr neu siaradwyr rhugl.

[www.derbywelshlearnerscircle.blogspot.com](http://www.derbywelshlearnerscircle.blogspot.com)



[www.tyfu-Cymraeg.co.uk](http://www.tyfu-Cymraeg.co.uk)



# Cerddinen

**W**rth i mi ysgrifennu'r erthygl hon, dw i'n gallu gweld trwy'r ffenestr ei bod hi'n ddiwrnod gogoneddus ac o'n i'n meddwl am ysgrifennu rhywbeth am bwnc gwahanol. Oedd yn drist i feddwl am brydferthwch coed a byd natur ar adeg pan dan ni'n gaeth i'n cartrefi ni. Er hynny, gan fod y coed yn blaguro erbyn hyn a dan ni'n gallu edrych ymlaen at fynd allan i'w mwynhau nhw yn y dyfodol, penderfynais ysgrifennu am goeden arall, sef y gerddinen.

Dw i'n siwr bydd pawb yn gyfarwydd ag aeron coch y gerddinen (*Sorbus aucuparia*) a dyna'r nodwedd gyntaf y meddylw'n ni amdani pan fydd rhywun yn son am y gerddinen neu 'y griafolen', fel y'i gelwir hefyd. Ymddangosith yr aeron yn yr haf hwyr ar ôl i'r blodau gwyn, sy'n ymddangos ym mis Mai, ddiflannu. Ei chynefin naturiol ydy'r ucheldir a deuir o hyd iddi mewn mannau llaith, er y ceith ei phlannu fel coeden stryd. Yng Nghymru, yn ogystal â glynu wrth glogwyni creigiog, gellir gweld y gerddinen ar y ffriddoedd, sef y mosaig

cymhleth hwnnw o laswelltir asidig, rhostir, cerrig noeth a chorsydd a borid gan geffylau a defaid yn draddodiadol.

O safbwynt byd eang, tyfith y gerddinen yn y Himalaya a gorllewin Tsieina, lle mae micro-rywogaethau apomictig. Mae'r fath blanhigion yn atgynhyrchu trwy 'atgynhyrchu anrhywiol', sef proses lle nad ydy'r hadau'n cael eu ffrwythloni gan eu bod nhw'n derbyn eu DNA yn uniongyrchol gan riant-blanhigyn. Felly, mae'r planhigion newydd yn gopiâu o'r planhigyn gwreiddiol. Mae hyd yn oed fwtaniadau etifeddol bach yn creu llinach annibynnol, sef 'micro-rywogaeth'. Un croesryw naturiol sydd i'w weld yn y Deyrnas Unedig ydy'r gerddinen wen (*Sorbus aria*).

Ystyr yr enw Lladin 'Sorbus' ydy 'coch'. Yn y Saesneg, deilliodd 'sorb' o'r gair Ffrangeg 'sorbe' sy'n yn ei dro'n deilio o'r gair Lladin 'sorbus' sy'n golygu 'service-berry'. Deillia'r enw Saesneg 'rowan' o'r ferf Germanaidd 'raud-inan'-'cochi', cyfeiriad at yr aeron coch. Yn Lloegr, cyfeirir at y rowan fel ran, roan, rodan, royan, royne, round a rune. 'Cwic beam' oedd yr enw Hen Saesneg ac wedyn yn 19eg Ganrif, ail-ddehonglwyd y gair fel cysylltiad â'r gair 'witch'. Death hwnnw o amrywiaethau tafodieithol, sef wicken-tree, wich-tree, wicky and wiggan-tree.

Mae'r aeron yn feddal a llawn sudd, felly mae adar fel cynffon sidan, bronfraith a brych y coed yn awyddus i'w bwyta. Defnyddia gwyfynod, fel rhisgyn brych, bidog flodiog, bidog llwyd, carpiog y derw a melyn y drain, y geddinen fel ffynhonnell fwyd. Mae'r aeron yn cael eu hel yn draddodiadol yn Scandania a thyf y goeden yn Vardo yng ngogledd-ddwyrain Norwy lle mae'r tymheredd cyfartalog ym mis Chwefror yn -4.6 gradd Celsius.

Mae pren y gerddinen yn cael ei

ddefnyddio i gerfio coesau offer a ffyn ac mae'r aeron yn cynnwys tannin a ddefnyddir fel 'mordant', sef sylwedd sy'n sefydlogi llifynnau ar ffabrigau.

Mae gan y gerddinen le yn llen gwerin Brydain. Credid bod y goeden yn amddiffyn yn erbyn bodau maleisus ac mae'n goeden a elwir 'Coeden y Teithwyr' oherwydd ei gallu i atal teithwyr rhag mynd ar goll. Dwedir i'r Diafol grogi ei fam ei hun oddi ar gerddinen!

Yn yr Alban, roedd traddodiad o blannu cerddinen wrth ddrws ffrynt tai er mwyn amddiffyn yn erbyn gwrachod a dwedodd y botanegydd a hynafiaethydd Edwin Lees yn 1850au y defnyddiai pobl y gerddinen i amddiffyn yn erbyn gwrachod yn 'Wyre Forest' yng Nghanolbarth Lloegr. Yn ôl y mytholegwr ac ysgrifennwr Thomas Keightley, gallai pobl wyllo gorymdaith y tylwyth teg yn ddiogel a gynhalid ar ddechrau'r haf trwy roi canghennau'r gerddinen uwchben eu drysau.

Yn Neo-Dderwyddiaeth, adwaenir y gerddinen fel 'coeden borth', sef y rhiniog rhwng y byd hwn a'r arallfyd. Efallai bod y cred hon yn deillio o'r traddodiad o blannu cerddinen wrth glwyd eiddo a fysai'n arwyddo rhiniog rhwng eiddo rhywun a'r stryd neu lwybr.

Dw i wastad yn dweud bod llawer mwy o ffeithiau diddorol am goed a does dim eithriad ynglŷn â'r gerddinen, ond dw i ddim yn credu y byddai golygydd Llais y Derwent yn cael ei blesio, taswn i'n defnyddio'r tudalennau i gyd er mwyn dweud rhagor, felly gobeithio fy mod i wedi rhoi digon o flas i chi i fynd ati i ddysgu mwy am y goeden ddiddorol hon.

**Martin Coleman**  
**Clay Cross**



## Meddyliau dysgwr o'r enw Jones

**N**id oes 'J' yn yr wyddor Gymraeg!  
"Dach chi o ddifri? Ond mae gen i gyfenw Cymraeg, roedd ein tad yn arfer canu 'Ji Ceffyl Bach' i'm brawd a fi ac un o'r geiriau cyntaf a ddysgais i oedd 'garej'." "Nid oes 'J' yn yr wyddor Gymraeg!"

Roedd yn rhaid i mi wirio fy hun. Edrychais i yn yr adran Gymraeg fy Ngeiriadur Rhydychen. Nid oedd dim byd o dan 'J'. Pam na medrwn i ei jyst adael yno? Ond roedd yn rhaid i mi lynu fy ngwddf allan fel mae jiraffod yn ei wneud. "Dalia eiliad!" meddyliais i, "beth mae'r rhan Saesneg yn ei ddweud?". Rhoddodd hynny eiriau Cymraeg gan ddechrau gyda 'J'. Gadwch i fi ddyfynnu rhai enghreifftiau: 'jam', 'jar', 'jeli', 'jôc', 'jwdo', 'jwg', ac felly yn y blaen.

"Ond geiriau Saesneg ydyn nhw mewn gwirionedd!" "Wrth gwrs. Yr hyn na fyddai siaradwr Saesneg yn ei ddeall "ji-binc"?" "Dan ni'n dweud 'Jin-Jin' yn Llanbedrog."

Byddaf yn newid y pwnc. Nid oes sain

yn Gymraeg fel y Saesneg 'ch'. Wrth gwrs, mae 'tsips' (beth sydd o'i le efo 'sglodion?'), 'tshili', 'Tsar yr holl Rwsiad', a'r 'Weriniaeth Tsiec'. Wedyn mi wnaeth tiwtor, o'r enw Jones hefyd, roi gwybod imi mai 'Ts' treiglo meddal oedd ... (medrwyd chi ddyfalu beth ydyw?) ... 'J'.

Dw i jyst â drysu. Yn lle dysgu Cymraeg, bydda i yn mynd ar wyliau. Mi medrwn i fynd i Jieni a Japán; ond nid wyf yn siarad hyd yn oed ychydig bach o Jieinëeg neu Japaneeg. Mi fedrwn i fynd mewn jet i Jamaica, lle byddwn i'n mwynhau jin a thonig, neu i jyngl. Liciwn i weld jiraffod o jîp, grŵp o jimpanî yn y jyngl, bwji yn y gwyllt yn Awstralia, neu jwglo yn Johannesburg. Ond byddai jet yn llygru'r jetlif a byddai i'n rhaid i mi gael jab. A i i Gymru yn fy Jagwar pan fydd gen i ychydig o amser rhydd o fy jobyn. Bydd hynny'n arbed ychydig o jouau. Bydd yn rhaid i mi gofio pacio fy jersi, jîns a phyjamas. Gobeithio nad ydw i'n mynd yn sownd y tu ôl i jygernaut neu jac codi baw wrth yrru yno. Does gen i ddim ots injanau tân. Bydda i'n mwynhau taith y tu ôl i injan stêm ac ymweld â'r tŷ injan. Bydda i'n dathlu buddugoliaeth Jemima Fawr ac edrych ar jacdoeau a ji-bincod. Liciwn i fwynhau canu Katherine Jenkins a hefyd y dyn sydd ag enw sydd bron yn union yr un fath â fy enw i. Os bydd hi'n bwrw glaw, byddaf yn ymlacio mewn jacwsi neu wneud jig-so.

Felly mae'n rhaid i mi ddysgu mwy o Gymraeg, gan ddechrau gydag amseroedd y gorffennol, ee: 'dwi newydd jocan'; 'rôn i'n jocan'; 'mi wnes i jocan'; 'mi jocanes i'; 'dw i wedi jocan'; 'rôn i wedi jocan'.

Dw i jyst â gorffen. Rŵan o'r diwedd dwi'n deall. Nid oes 'J' yn yr wyddor Gymraeg, jyst geiriau sy'n cynnwys 'j' yn y Gymraeg. Wel, hi yw iaith y nefoedd, felly, pam ddylai rhesymeg ddynol fod yn berthnasol iddo? Dw i isio

fod yn siriol a gobeithio nad yw'n sacrilej ieithyddol.

**Tim Jones**  
**Swydd Stafford**

### **Geirfa**

Adran - section  
Cyfenw - surname  
Difri- serious  
Drysu - to confuse  
Dyfalw - to guess  
Dyfynnu - to quote  
Dynol- human  
Enghraifft - example  
Gwddf - neck  
Gwyddor- alphabet  
Jac codi baw - JCB  
Jetlif - jet-stream  
Ji-binc - chaffinch  
Jou - quid  
Llygru - to pollute  
Perthnasol - relevant, pertinent  
Rhesymeg - logic  
Rhydychen - Oxford  
Weriniaeth - republic  
Ychydig - a little, few

### **Cymdeithas Cymry Nottingham**



[www.nottinghamwelshsociety.org.uk](http://www.nottinghamwelshsociety.org.uk)



## Y Barcut Coch

**W**eithiau dw i'n poeni mod i'n amharod i drio pethau newydd a pham bod rhaid? Dw i'n hapus iawn efo'r hen bethau ac yn ddigon prysur fel y mae. Dydw i ddim yn sôn am bethau peryglus fel sgrechian o un pen o 'Zip wire' i'r llall neu fownsio i fyny ac i lawr ryw elastig bynji. Yn fy oed ag amser peth call iawn yw osgoi pethau fel yna. Ond mae'n siŵr bod pethau eraill bydda i'n mwynhau dim ond i mi fynd trwy'r camau cyntaf ac ychydig o wythnosau yn ôl mi nes i brofi hynny i fy hun.

Roedd yn agos at yr amser yn y mis pan dw i'n paratoi erthygl ar gyfer papurau bro Cymru, dw i wedi bod yn gwneud hyn am chwe mis erbyn hyn a llawer o'r papurau yn eu cyhoeddi nhw. Pwrpas yr erthyglau yw rhoi dipyn o gyhoeddusrwydd i Gymdeithas Edward Llwyd ac mae'r erthyglau i gyd â chysylltiad â byd natur. Hyd yn hyn dw i wedi llwyddo i greu erthygl a chael llun i fynd efo fo ond y tro yma roedd gen i ddigon o syniadau ond dim un llun. Beth o'n i'n mynd i wneud?

Rhywsut mae syniadau'n datblygu yng nghefn eich meddwl ac yn dod i'ch

syllw pan dach chi'n ymlacio. Dyma fi'n mwynhau paned o goffi wrth ddarllen cylchgrawn ffotograffiaeth, yn benodol ro'n i'n darllen am sut i dynnu lluniau o adar yn hedfan. Rŵan dw i'n un o'r bobl sydd dim ond yn tynnu lluniau o'r tirlun a hynny achos nid yw'r tirlun yn symud llawer. Efo adar mae'n rhaid gosod y camera yn iawn, adweithio i'r sefyllfa'n gyflym a thrio rhagweld sut mae'r aderyn yn mynd i droi ac yn y blaen. Unwaith dach chi'n pwysu'r botwm mae 10 llun yn cael eu tynnu pob eiliad ac mae'n rhaid dilyn yr aderyn efo'r camera. A fydd hynny'n rhy gyffroes i rywun fel fi? Wel roedd yr erthygl yn esbonio'r dechnoleg a'r dechneg, roedd y rhain mynd amdani!

Y syniad yn tyfu yn fy mhen oedd mynd i Landdeusant i wyllo'r barcutiaid coch yn cael eu bwydo a gweld sut fydd pethau'n mynd. Fel roedd yn digwydd roedd y diwrnod wedyn yn sych ond cymylog, delfrydol! Yn union yn ôl fy arfer ro'n i'n rhy gynnar ond treuliais dri chwarter awr yn mwynhau tawelwch yr ardal.

Doth yr amser a rhois dair punt am fy lle yn y guddfan a gwneud yn siŵr unwaith eto bod y camera wedi cael ei osod yn iawn. Nid fi oedd yr unig un yna wrth gwrs, roedd tua deg o ffotograffwyr brwd yna, tua naw ohonyn nhw efo lensys hir ac un, fi efo rhywbeth bach mwy diymhongar. Roedd y barcutiaid yn uchel yn yr awyr a'r brain yn eistedd yn y coed, maen nhw i gyd yn gwybod pryd mae amser cinio. Mi wnaeth pethau ddigwydd yn gyflym unwaith ddoth y dyn efo'i bwced o gig, yn sydyn roedd cwmwl ffyrnig o farcutiaid yn ymladd am y bwyd ac yn troi yma ac acw i osgoi ei gilydd, doedd dim un damwain! Cymerodd dipyn o amser i mi ddod i arfer â dilyn aderyn yn hedfan mor gyflym a'r camera'n swnio fel dryll beiriannol. Erbyn y diwedd roedd 368 o luniau ar y cerdyn, rhan fwyaf roeddwn

i'n gallu taflu a dwsin i gadw. Ond yr un yma oedd y gorau o bell ffordd.

Pwy fysa'n meddwl? Finnau, o'r diwedd, yn tynnu lluniau o bethau sy'n symud! Beth nesaf?

Yma yng Nghymru oedd yr ymdrech gyntaf i achub y barcut, yn y 1930au dim ond 20 ohonyn nhw oedd ar ôl ond gyda dyfalbarhad maen nhw dros Gymru i gyd erbyn hyn. Mae rhai o'n hadar ni wedi cael eu hallforio i lwerddon felly allech chi weld barcutiaid yn ardal mynyddoedd Wicklow.

Os oes gennych chi gyfle i weld y barcutiaid yn cael eu bwydo peidiwch â cholli'r cyfle ond ar eich tro cyntaf peidiwch â mynd â'ch camera. Mwynhewch gyda'ch llygaid!

Dach chi'n gwybod be? Allaf ddim aros tan fynd yna eto a fydda i'n cael mwy o hwyl yr ail dro. Ond wrth gwrs efo'r holl wlad wedi cau i lawr bydd yn dipyn o amser cyn y tro nesaf, dyma rywbeth i chi ddarllen er mwyn cadw'ch Cymraeg i fynd.

**Rob Evans**

## Geirfa

Amharod – reluctant

Camau cyntaf – First steps

Cyhoeddusrwydd – publicity

Hyd yn hyn – up to now

Yn benodol – in particular

Tirlun – landscape

Adweithio i'r sefyllfa – react to the situation

Rhagweld – to foresee

Barcutiaid coch – red kites

Brwd – keen

Diyhongar – modest

Dryll beiriannol – machine gun

# Mae amser gwell i ddyfod, Haleliwia!

**C**yfarchion gorau i ddarllenwyr Llais y Derwent. 'Roeddwn wedi penderfynu sgrifennu ychydig eiriau am Llywelyn ein Llyw Olaf neu Llywelyn ap Gruffudd i roi ei enw iawn; tywysog oedd ef a laddwyd ger Cilmeri ym Mhowys yn y flwyddyn 1282; ond yn anffodus mae digwyddiadau ac amgylchiadau wedi fy nhrechu a rhaid i Lywelyn aros ei dro! Mae'n amhosib anwybyddu'r yr eliffant yn y 'stafell, sef y feirws.

Rwy'n cofio pan oeddwn yn blentyn, ar ein ffordd gartref o'r ysgol gynradd byddai tri neu bedwar ohonom ni'r cryts yn galw yn nrws cefn tafarn y Cennen Arms yn y pentref ac yn prynu potelaid fawr o bop Corona\* am chwecheiniog (2½p heddiw) ac yn ei yfed rhyngddom yn y lle a'r man yn union o'r botel heb ddefnydd o wydr. Dandelion and Burdock oedd y dewis ran amlaf; wedyn byddem yn cael dwy geiniog yn ôl am y botel. Yn awr wrth gwrs mae'r gair Corona wedi cymryd arno ystyr mwy ysgytwol ac arswydus.

Nid wyf am helaethu ar y marwolaethau, y teuluoedd yn cael eu rhwygo, a'r ystadegau dychrynlyd ar hyn o bryd (Ebrill 12fed); na hefyd ar ein bywyd dyddiol yn cael ei amharu heb wahaniaethu rhwng y cyfoethog a'r tlawd, yr ifanc a'r henoed a rhwng seintiau a phechaduriaid; daw llif o newyddion am y feirws bob munud o'r



dydd oddiwrth y cyfryngau ac mae hyn yn hollol ddealladwy am does dim byd tebyg wedi digwydd yn ein bywydau ni hyd yn hyn. Mae'n bwysig yn awr cadw'r rheolau gorau gallwn er mwyn gwneud ein rhan i orchfygu'r gelyn hwn a hefyd gadewch i ni obeithio ac ymddiried yn y geiriau allan o'r gân Gymraeg "Moliannwn", y geiriau "Mae amser gwell i ddyfod, Haleliwia".

Ymysg y pethau drwg sydd yn tarddu o'r feirws a'r adeg o hunan-ynysiad oes 'na ronyn o rinweddau? Wel oes rwy'n credu; wedi cysylltu gyda fy ngwraig gwnaethom restr fach a dyma rhai ohonyn nhw ; rwy' credu byddwch chithau yn gallu ehangu'r rhestr wrth eich hun. Yn gyntaf rydym wedi dod i 'nabod fwy o'n cymdogion a phrofi eu caredigrwydd; er enghraifft daeth pâr ifanc, yn byw rhyw bedwar ty yn uwch yn y stryd, i'r drws i gynnig mynd i siopa i ni. Nid oeddwn wedi cael un gair efo nhw cyn hyn. Yn ail mae 'na bleser i gael wrth werthfawrogi'r tawelwch sydd wedi ei daenu dros ein hamgylchedd; mae'r tawelwch yn rhoi siawns i glywed yr adar mân yn canu ac yn y blaen heb sŵn a bwrlwm cerbydau. Fe allech dyngu fod llawer fwy o adar wedi ymddangos yn ddiweddar; y ffaith yw nid oeddwn yn eu clywed ogystal cyn yr argyfwng. Ac yn awr gair bach am yr oedrannus; yn tarddu o'r hunan-ynysu mae llawer o bobl mewn tipyn o oedran (fel fi rhaid cyfaddef!) yn dod i ymdopi wrth raid a'r technolegau diweddar fel Zoom ac ati. Hefyd mae gan lawer ohonom, ond rhaid dweud dim pawb, fwy o amser i wneud y tasgau oddi amgylch y ty ac yn yr ardd roeddem yn tueddu gohirio mewn adeg fwy prysur; credwch fi neu beidio rwyf innau wedi cael amser i beintio fy merfa

neu fy whilber fel byddwn ni'n dweud yn y de. Fy whilber i yn awr yw'r Rolls Royce o'r holl whilberi yn y gymdogaeth. Hefyd mae amser i ddarllen neu ailddarllen y llyfrau sydd wedi bod ar y silff yn casglu dwst am flynyddoedd; bûm yn ailddarllen "Testament of Youth" gan Vera Brittain wythnos ddiwethaf ac rwyf hanner ffordd drwy "Un nos ola leud" gan Caradog Prithchard ar hyn o bryd; math o hunan gofiant yw wedi ei leoli yn ardal Bethesda yng Ngogledd Cymry yn y cyfnod pan oedd y diwydiant llechi yn ei anterth. Os cewch gyfle darllenwch e'. Mae'n waith gwych er bod yr iaith yn nhafodiaith dwfn yr hen Sir Gaernarfon ac yn ddieithr i Hwntw fel fi. Yn ola onid yw yn amser cyfleus i'r hunanynyswyr cybyddlyd am fod llai o gyfle i wario arian pan fod sut gymaint o siopau ar gau? Bydd y cybyddion yn medru rhoi swm sylweddol yn y coffor; mae Maureen a finnau yn arbed talu am ein ddau goffi wythnosol yng Nghaffi Nero neu yng Nghosta Coffa; ond beth ddwi'n gwybod am arian? Rhywbeth i wario yw arian wedi bod i mi erioed. Serch hynny rwy'n pryderi ychydig am fod gen i Gosta Card yn fy waled a phris dau goffi am ddim arno; pryd, o bryd cewn ni gyfle yw defnyddio?

O ddifri, byddwch ddiogel ac yn iach gan obeithio bydd y geiriau "Mae amser gwell i ddyfod" yn cael eu gwireddu.

**Howell Price**  
**Nottingham**

\* sefydlwyd cwmni Corona ym Mhorth yn Y Rhondda ym 1884 gan William Thomas a William Evans; diflannodd y

Corona pop rhywbryd yn y nawdegau'r ganrif ddiwethaf.

## Geirfa

anwybyddu - ignore

crwt (ll.cryts) - youngster(Male) used in S. Wales

cybydd - miser

Cybyddlyd - miserly / tightfisted.

Hunan-ynysiad - self isolation

berfa, whilber - wheelbarrow;

gwireddu - come true.

# GWISGO MWGWD

**D** oedd Sajida ddim wedi bod yn gwisgo mwgwd pan gwrddodd Kirsty â hi gyntaf. Roedd hi wedi ei chroesawu i adran menywod y mosg mewn jîns â dim ond sgarff ar ei phen. Cyfeillgar a charedig iawn tuag ati oedd hi wedi bod.

Rhaid bod i'r sefyllfa wedi bod yn llawn mor lletchwith iddi hi ag oedd hi i Kirsty.

Roedd swyddogion y mosg wedi bod yn disgwyl dyn - nid menyw; ond pan gyrraeddod eu gwahoddiad i'r eglwys i gynrychiolydd fynychu'r mosg er mwyn dathlu Pen-blwydd y Proffwyd, Kirsty oedd yr unig wirfoddolwr o achos ei diddordeb mewn dealltwriaeth rhyngffydd a'i phrofiad blaenorol o ymweld â mosgiau. Yn ogystal, roedd hi'n awyddus yn benodol i glywed yr araith gan ysgolhaig Mwslimaidd oedd prif atyniad yr achlysur.

Mosg newydd iddi hi oedd yr un hwn, fodd bynnag, lle doedd neb sy'n ei nabod; a phan eglurodd pwy oedd hi, roedd dryswch amlwg ac embaras. Cafodd ei hail-ddargyfeirio i adeilad ar wahân i'r brif neuadd-weddi.

Ar ôl tynnu ei hesgidiau a sythu ei sgarff, camodd i mewn.

Roedd plant yn rhedeg o gwmpas a gweiddi, tra roedd eu mamau yn hel clecs yn swnllyd wrth iddyn nhw drefnu bwyd. Neb oedd yn siarad Saesneg o gwbl. Roedd tro Kirsty i deimlo'n embaras, ond methu dangos hyn.

Pwyllodd cyn iddi hi nesáu at rywun a chyflwyno ei hun. Diflannodd y fenyw yn syth, a dychwelyd gyda Sajida - mam ifanc ei hanerchodd yn Saesneg. Roedd hi wedi cofleidio Islam er mwyn priodi, eglurodd hi, a dweud wrth Kirsty mai Leanne oedd ei henw gwreiddiol.

Cynigiodd fwyd i Kirsty ond roedd rhaid iddi hi ei wrthod gan oedden nhw'n bwyta cig wnaeth Kirsty ddim erioed. Roedd hi'n ceisio cuddio ei hanfodlonrwydd. Pryd bynnag roedd cynulleidfa ei heglwys yn gwahodd pobol o grediniaethau eraill i ddigwyddiad, roedden nhw'n wastad ofalus i gynnig bwyd addas i'r gwesteion. Dros blât datys, felly, gwnaeth Sajida a hithau drafod eu hymarferion dietegol.

Yn y cyfamser, roedd y digwyddiadau yn y brif neuadd yn cael eu darlledu i adran y menywod dros system sain. Pan ddechreuodd yr ysgolhaig gyflwyno ei araith roedd Kirsty'n disgwyl y byddai pawb yn tawelu; ond gan oedd o'n pregethu yn Saesneg, roedd y menywod yn ei anwybyddu. Nid oedd gan Sajida

unrhyw ddiddordeb yn ei eiriau chwaith, a pharhau sgwrsio. Erbyn hyn roedd Kirsty yn teimlo'n hollol rwystredig, ond roedd hi'n smalio mwynhau ei hun.

Ac yn sydyn roedd popeth drosodd. Roedd rhywun yn casglu gweddillion y bwyd mewn bag sbwriel enfawr, mamau yn cynnull eu plant, a Sajida'n dechrau gorchuddio ei hun mewn abaya du a niqab, â menig du ar ei dwylo, nes i ddim byd heblaw ei llygaid fod yn weladwy.

Cafodd Kirsty sioc annifyr. Yn syth roedd ei theimladau tuag Sajida / Leanne yn wahanol, ac yn anghyfforddus iawn. Ond pam? Beth oedd o'i le?

Sylweddolodd Kirsty mai ynglŷn ag ymddiriedolaeth oedd ei hanesmwythder. Wnaeth hi byth deall o'r blaen i ba raddau roedd hi'n dibynnu ar arwyddion gweladwy oddi wrth wynebaw pobol eraill er mwyn penderfynu ai ymddiried ynddyn nhw a'u geiriau neu beidio.

Ar ôl i Sajida wisgo ei mwgwd, ar goll roedd yr holl arwyddion cynnil hynny, a doedd ganddi hi ddim syniad sut dylai ymateb.

Gofynnodd hi ei hun beth roedd hynny'n arwyddo am ei chymdeithas orllewinol. Rhai cythryblus oedd ei chasgliadau.

Yn aml iawn, meddyliodd, dydy pobol ddim yn dweud yn union beth maen nhw'n golygu, a disgwyl bod pobol eraill yn mynd i ymddwyn yn yr un ffordd. Mae wedi bod rhaid iddyn nhw felly dod yn arbenigwyr mewn dehongli ystyrion wir trwy graffu ar wynebaw'r rheiny maen nhw'n gwrando arnyn nhw. Diglem ydyn nhw os mae'r arwyddion allweddol yn cael eu cuddio.

Ond beth am ddiwylliant Sajida? Oedd hi'n bosib bod Mwslimiaid i gyd yn gallu cymryd eu geiriau yn ôl eu gwerth, gan fod nhw'n fwy gonest?

Wrth gofio ei hesgus bod hi'n mwynhau ei hun yn y mosg, roedd Kirsty yn meddwl tybed pwy o'r ddwy ohonyn nhw oedd yn gwisgo mwgwd mewn gwirionedd.

**Cath Platt  
Uttoxeter**



## **SIARADWYR A DYSGWYR**

Cymraeg

GUIDED WALK FOR WELSH SPEAKERS AND LEARNERS



### **Cerddwyr**

### **Canolbarth Lloegr**

Grŵp Weplyfyr ar gyfer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr sy eisiau cwrdd i gerdded yn Ardal y Peac

ac i siarad Cymraeg

[menteriaithlloegr@mail.com](mailto:menteriaithlloegr@mail.com)

## Y Jar Mayonnaise a'r Jar Coffi

**P**an fydd pethau yn eich bywyd yn ymddangos bron yn ormod i'w trin, pan nad yw 24 awr mewn diwrnod yn ddigon, cofiwch y jar mayonnaise ... a'r jar coffi!

Safodd athro o flaen ei ddosbarth athroniaeth ac roedd ganddo rai eitemau o'i flaen. Pan ddechreuodd y dosbarth, yn ddi-eiriau, cododd jar mayonnaise fawr a gwag iawn a bwrw ymlaen i'w lenwi â pheli golff. Yna gofynnodd i'r myfyrwyr a oedd y jar yn llawn. Cytunwyd ei fod.

Felly cododd yr athro focs o gerrig mân a'u tywallt i'r jar. Ysgydwodd y jar yn ysgafn. Roedd y cerrig mân yn rholio i'r ardaloedd agored rhwng y peli golff. Yna gofynnodd i'r myfyrwyr eto a oedd y jar yn llawn. Cytunwyd ei fod.

Nesaf, cododd yr athro focs o dywod a'i dywallt i'r jar. Wrth gwrs, roedd y tywod yn llenwi popeth arall. Gofynnodd unwaith eto a oedd y jar yn llawn. Ymatebodd y myfyrwyr gydag unfrydol "YDI."

Yna cynhyrchodd yr athro ddwy gwpanaid o goffi o dan y bwrdd a thywallt y cynnwys cyfan i'r jar, gan lenwi'r lle gwag rhwng y tywod i bob pwrpas. Chwarddodd y myfyrwyr.

"Nawr," meddai'r athro, wrth i'r chwerthin ymsuddo, "rwyf am i chi gydnabod bod y jar hon yn cynrychioli'ch bywyd. Y peli golff yw'r pethau pwysig - eich Duw, teulu, eich plant, eich ieuchyd, eich ffrindiau, a'ch hoff nwydau. Y cerrig mân yw'r pethau eraill sy'n bwysig fel eich swydd, eich tŷ a'ch car. Pe bai popeth arall yn cael ei golli, byddai'ch bywyd yn dal i fod yn llawn. Y tywod yw popeth arall - y pethau bach."

"Os rhowch y tywod yn y jar yn gyntaf," parhaodd, "nid oes lle i'r cerrig mân na'r peli golff. Mae'r un peth yn wir am oes. Os ydych chi'n treulio'ch holl amser ac egni ar y pethau bach, ni fyddwch byth bod â lle i'r pethau sy'n bwysig i chi. Rhowch sylw i'r pethau sy'n hanfodol i'ch hapusrwydd. Chwarae gyda'ch plant.

Cymerwch amser i gael gwiriadau meddygol (health checks). Ewch â'ch partner allan i ginio. Chwarae un arall. Bydd bob amser gyfle i lanhau'r tŷ a thrwsio'r gwarediad (disposal bins). Gofalwch am y peli golff yn gyntaf, y pethau sy'n wirioneddol bwysig. Gosodwch eich blaenoriaethau. Tywod yn unig yw'r gweddill."

Cododd un o'r myfyrwyr ei llaw a holi beth oedd y coffi yn ei gynrychioli.

Gwenodd yr athro."Rwy'n falch ichi ofyn. Mae'n dangos i chi, waeth pa mor llawn y gall eich bywyd ymddangos, mae lle bob amser i gwpl o gwpanaid o goffi gyda ffrind."

O.N.

Nid yw'r awdur gwreiddiol yn hysbys, ond mae Gwynne Davies eisiau rhannu'r berl fach hon gyda ni i gyd. A yw'n berthnasol i'ch bywyd?

**Gwynne Davies**  
**Nottingham**

---

## Grŵpiau Ymarfer Cymraeg yn Lloegr

Yn amlwg, oherwydd argyfwng Cofid-19 mae cyfarfodydd cyhoeddus y gwersi a'r grŵpiau Cymraeg yn Lloegr wedi'i ganslo am gyfnod hir. Gobeithio mi fydd y rhain yn aildechrau ar ôl i gyfnod Coronafeirws yn dod i ben. Ar hyn o bryd mae cyfarfodydd Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby, Cymry Nottingham a Chymry a dysgwyr Manceinion wedi symud ar lein. Mae gwybodaeth am hyn i gyd ar ein gwefan ac ar ein grŵp Facebook 'Menter Iaith Lloegr'.

---

## Llais Y Derwent

Os dych chi eisiau sgwennu erthygl i 'Lais' cysylltwch trwy anfon neges ebost at [menteriaithlloegr@mail.com](mailto:menteriaithlloegr@mail.com)

Mae hen gopïau o Llais Y Derwent ar gael am ddim ar ein gwefan

[www.derbywelshlearnerscircle.blogspot.com](http://www.derbywelshlearnerscircle.blogspot.com)